1–2 awr

12

# Aderyn Drycin Manaw

## Yr offer sydd ei angen

- Copi o'r graff Tuedd Poblogaeth Aderyn Drycin Manaw (S_WR_2), 1 fesul grŵp neu wedi'i arddangos yn ddigidol
- Taflen wybodaeth 'Aderyn Drycin Manaw', 1 fesul grŵp neu wedi'i arddangos yn ddigidol
- Dyfais y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil

## I gwblhau'r gweithgaredd:

1. Gofynnwch i'r dysgwyr yn y dosbarth i rannu enwau adar maen nhw wedi'u gweld ar dir yr ysgol neu yn yr ardal leol. Crëwch restr o adar ar gyfer y dosbarth ar sail eu hymatebion. Gofynnwch i bob grŵp ddewis aderyn gwahanol o'r rhestr a thrafod ei ymddangosiad, ei gynefin a'i ddeiet.

2. Anogwch y dysgwyr i ystyried pam mae adnabod adar yn gywir yn bwysig, sut mae gwyddonwyr yn cofnodi adar yn eu gwaith cadwraeth a pha gliwiau all helpu i wahaniaethu rhwng rhywogaethau.

3. Esboniwch i'r dysgwyr y byddant yn archwilio ffynonellau gwybodaeth amrywiol am yr aderyn drycin Manaw - o daflenni a graffiau testun i gomics a chwisiau - i ddeall sut mae gwahanol gyfryngau yn cyflwyno data a chyfleu canfyddiadau gwyddonol.

4. Rhannwch y comic cylch bywyd gyda'r dysgwyr – www.tiramor.cymru/cofnodibywydgwyllt (Adnodd 4) a thrafodwch:
   - Sut mae'r aderyn drycin Manaw yn wahanol i'r adar ar dir yr ysgol?
   - Lle mae'n byw? Sut mae'n ymddwyn?
   - Pam mae'n bwysig dysgu mwy am adar fel yr aderyn drycin Manaw?

5. Yna, rhannwch graff tuedd poblogaeth aderyn drycin Manaw Enlli (S_WR_2) a gofynnwch:
   - A yw'r boblogaeth wedi cynyddu neu leihau? Pa ffactorau allai esbonio hyn?
   - Sut mae hyn yn cymharu â phoblogaethau adar eraill?
   - Sut gall data arwain strategaethau cadwraeth?

   Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio gwefan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO) i ystyried tueddiadau adar eraill – www.tiramor.cymru/cofnodibywydgwyllt (Adnodd 5).

6. Rhowch gyfle i'r dysgwyr i gwblhau'r cwis 'Aderyn Drycin Manaw' – www.tiramor.cymru/cofnodibywydgwyllt (Adnodd 6).

7. Rhannwch y daflen wybodaeth 'Aderyn Drycin Manaw' a gofynnwch i'r dysgwyr anodi, tynnu sylw at fanylion allweddol a thrafod y strwythur.


8. Anogwch drafodaeth byr gyda'r dosbarth ar eu hoff ffyrdd o rannu gwybodaeth a pham mae dewisiadau'n amrywio. Pa gyfrwng - testun, comig, graffiau, cwis, neu unrhywbeth arall - a fyddai dysgwyr yn eu dewis a pham? Trafodwch pam y gallai fod yn well gan wahanol bobl wahanol ddulliau i rannu gwybodaeth.

9. Cefnogwch y dysgwyr i ddewis cyfrwng (e.e. PowerPoint, Sway, dogfen Word, poster, comig, cwis, neu graff) i gyflwyno gwybodaeth am aderyn o restr y dosbarth. Anogwch nhw i gasglu ffeithiau allweddol a chyflwyno eu canfyddiadau mewn ffordd glir a diddorol.

10. Anogwch y dysgwyr i rannu eu gwaith gyda'r dosbarth, gan esbonio ffeithiau allweddol am eu haderyn a'u dewis o sut i'w cyflwyno. Beth wnaethon nhw ei ddysgu? Hwyluswch sesiwn holi ac ateb byr ar ôl pob cyflwyniad fel y gall cyfoedion gynnig adborth adeiladol a thrafod gwahanol ddulliau.

S_WR_2

Poblogaeth Aderyn Drycin Manaw ar Ynys Enlli



# Aderyn Drycin Manaw

(Puffinus puffinus)



## Ffeithiau cyflym

**Enw Gwyddonol:** Puffinus puffinus
**Maint:** Tua 30-38cm o hyd
**Lled adenydd:** 76-89cm
**Pwysau:** Tua 450g - 600g
**Hyd oes:** Yn gallu byw dros 50 mlynedd! (Cyfartaledd yw 30 oed)

## Edrychiad

Rhannau uchaf du ac isrannau gwyn– gan edrych fel 'M' yn hedfan o islaw.
Pig tenau, ychydig yn fachog, perffaith ar gyfer dal pysgod.
Adenydd hir, cul wedi'u cynllunio ar gyfer gleidio dros y môr.

## Cynefin a mudo

Mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd ar y môr, dim ond yn dod i'r tir i fridio.
Nythod ar ynysoedd Cymru fel Enlli, Sgomer a Sgogwm.
Bob blwyddyn, maent yn mudo dros 10,000km i Dde America ar gyfer y gaeaf!

## Deiet

Bwyta pysgod bach, môr-lewys a chramenogion.
Yn dal bwyd trwy ddeifio o dan y dŵr a dal ysglyfaeth gyda'i big - gall blymio hyd at 50 metr o ddyfnder.
Yn gallu yfed dŵr hallt a hidlo'r halen!

## Ymddygiad ac addasiadau


Hedfan yn isel dros y môr, prin yn chwifio ei adenydd.
Dim ond yn dod i dir yn y nos er mwyn osgoi ysglyfaethwyr.
Nythu mewn tyllau neu gilfachau cudd i gadw'n ddiogel.

## Cadwraeth a bygythiadau

Prif fygythiadau: llygod mawr ac ysglyfaethwyr eraill yn bwyta wyau a chywion.
Mae llygredd plastig a newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ffynonellau bwyd.
Mae ymdrechion cadwraeth ar ynysoedd Cymru wedi helpu i ddiogelu safleoedd nythu.


# Aderyn Drycin Manaw

(Puffinus puffinus)




**Galwad a chân**

*Swnllyd iawn yn y nos mewn coloni! Mae'n swnio fel chwerthin rhyfedd ac iasol – gwrandewch ar wefan RSPB – www.tiramor.cymru/cofnodibywydgwyllt (Adnodd 7).*



*Dim ond 5 nythfa fawr o adar drycin Manaw sydd yn y byd, ac mae Enlli yn un ohonynt.*